Rhondda Cynon Taf

Datganiad Seibiannau Byrion ar gyfer Plant Anabl

RHONDDA CYNON TAF

Cynnwys

Datganiad Seibiannau Byrion RhCT 1
Amcanion.....2
Beth yw Seibiant Byr?.....3
Ein Gwasanaeth Presennol 3
Enghreifftiau o Wasanaethau Seibiannau Byrion.....4
Sut i gael mynediad i'r gwasanaeth 5
Y Ffordd Ymlaen 6

Datganiad Seibiannau Byrion RhCT

Mae'r datganiad yma ar gyfer teuluoedd sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) sydd â phlentyn anabl rhwng 0 a 18 oed.

Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaethau seibiannau byrion i deuluoedd sy'n byw yn RhCT ac yn syml, yn nodi pwy sy'n gallu cael mynediad iddyn nhw, a sut dylen nhw fynd ati i wneud hyn. Mae'n bosibl y bydd angen inni asesu'ch plentyn a'r teulu i sicrhau ein bod ni'n darparu'r lefel gywir o gymorth a seibiannau byrion.

Yn Rhondda Cynon Taf ein blaenoriaethau yw:

- Sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag niwed.
- Sicrhau bod plant â'r cyfle i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
- Gwrando ar blant a'u trin gyda pharch.
- Sicrhau bod gan blant gartref a chymuned ddiogel, sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
- Sicrhau bod plant yn derbyn gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan staff medrus a chymwys.

Drwy ymgynghori, dyma beth ddywedoch chi wrthon ni:

Mae'r datganiad seibiannau byrion yma wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Rhwydwaith Cynhalwyr a Rhieni RhCT, a phartneriaid mewn addysg ac iechyd a'r sector gwirfoddol, i sicrhau bod teuluoedd sydd â phlant anabl yn gwybod:

1. Beth yw seibiant byr
2. Bod hawl gan bob plentyn anabl i ddefnyddio gwasanaethau'r brif ffrwd a'r
3. Modd y mae Rhondda Cynon Taf yn penderfynu pwy sydd â'r hawl i gael seibiannau byrion mwy arbennig.

Beth yw Seibiant Byr?

Yn flaenorol, roedd Seibiannau Byrion yn cael eu galw'n 'gofal seibiant'. Diben seibiant byr yw rhoi'r cyfle i deuluoedd dreulio amser gyda'i gilydd gan gymryd rhan mewn gweithgareddau, gyda'u plentyn anabl neu hebddo fe. Yn ogystal â chael seibiant oddi wrth gyfrifoldebau gofalu, mae seibiannau byrion hefyd yn rhoi cyfle i blant anabl gael hwyl wrth brofi gweithgareddau newydd a gwneud ffrindiau.

Ein Gwasanaeth Presennol

Ar hyn o bryd, mae Rhondda Cynon Taf yn darparu ystod o seibiannau byrion. Mae'r diagram isod yn rhoi braslun o'r mathau o wasanaethau rydyn ni wedi'u datblygu, o ganlyniad i wrando ar yr hyn mae'r bobl ifainc anabl a'u teuluoedd wedi dweud wrthon ni.

Enghreifftiau o Wasanaethau Seibiannau Byrion

Rydyn ni wedi datblygu ystod o wasanaethau seibiannau byrion. Dyma rai ohonyn nhw:

Math o wasanaeth	Enghreifftiau o seibiannau byrion
Seibiannau dros nos	Mae unedau preswyl Nantgwyn ac Ash Square a'r Cynllun Cysylltu'r Teulu yn cynnig seibiannau byrion dros nos
Taliadau Uniongyrchol	Mae modd defnyddio taliadau uniongyrchol i gyflogi cynorthwyydd personol neu i dalu am wasanaethau amrywiol, e.e. eistedd yn gwmni, gwarchod plant. Mae hwn yn drefniad hyblyg y mae'r rhieni eu hunain yn ei reoli yn uniongyrchol. Mae'r Cyngor â chontract gyda Chanolfan Byw Annibynnol Dewis, i ddarparu cymorth a chyfeirio defnyddwyr taliadau.
Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd	Mae'r gwasanaeth yma'n rhoi cymorth i blant a phobl ifainc anabl a'u galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis yn eu cymunedau eu hunain.
Cynlluniau chwarae a gofal yn ystod y gwyliau	Mae cynlluniau chwarae mynediad agored yn cael eu cynnal yn ystod y gwyliau ledled y sir i bob plentyn sydd rhwng 5 a 14 oed, ac mae plant anabl yn derbyn cymorth er mwyn iddyn nhw gael cymryd rhan. Mae darpariaeth chwarae ar gyfer plant anabl cyn-ysgol yn cael ei hariannu gan ystod o wasanaethau gofal plant y Blynyddoedd Cynnar.
Clybiau arbennig	Mae nifer o glybiau arbennig ar gyfer plant a phobl ifainc anabl, er enghraifft, Pals.
Gofal plant Dechrau'n Deg	Mae'r gwasanaeth yma yn darparu gofal plant rhan amser di-dâl ar gyfer yr holl blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, yn dilyn eu pen-blwyddi'n 2 oed.
Cynllun Cynnal y Cynhalwyr RhCT	Mae'r cynllun yma yn darparu cyfleoedd i gynhalwyr gymryd rhan mewn achlysuron, gweithgareddau a hyfforddiant, a all eu helpu i gyflawni eu cyfrifoldebau gofalu.
Gwasanaethau eistedd	Mae gwasanaethau eistedd yn cael eu darparu gan sefydliadau gwirfoddol ar draws y sir, e.e. Crossroads.
Gwasanaethau hamdden arbennig	Rhaglen Stars, Prosiect Meisgyn a chlybiau nofio arbennig.
Pecynnau Gofal Iechyd Parhaus	Dyma Wasanaethau Gofal Nyrsio Arbennig i blant a phobl ifainc sy'n bodloni Meini Prawf Gofal Iechyd Parhaus.

Sut i gael mynediad i Seibiannau Byrion

Mae'r ystod o seibiannau byrion sydd ar gael yn cynnwys darpariaeth gyffredinol ac arbennig.

Lefel y cymorth	Math o asesiad / mynediad i'r gwasanaethau	Enghreifftiau o wasanaethau
Cyffredinol / Rhwystro	Does dim angen asesiad, hunan gyfeirio, cysylltwch â'r gwasanaeth yn uniongyrchol.	Darpariaeth Ysgol y Gwasanaeth Ieuenctid, Brownies, Cubs, clybiau hamdden a gweithgareddau, cynlluniau chwarae yn ystod y gwyliau, cylchlythyr a gwefan Rhwydwaith Cynhalwyr a Rhieni RhCT.
Arbennig/ dwys	Bydd angen asesiad gan ddefnyddio Fframwaith Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Asesiad ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.	Taliadau uniongyrchol, seibiannau byrion dros nos, Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, cynlluniau cymorth yn ystod y gwyliau, gwasanaethau eistedd, gofal iechyd arbennig

Darpariaeth Gyffredinol:

Rydyn ni wedi gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyffredinol i gynnal hyfforddiant a rhoi cymorth i staff mewn perthynas ag ymwybyddiaeth anabledd er mwyn sicrhau bod modd i blant a phobl ifainc anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, er enghraifft, cynlluniau chwarae yn ystod yr haf a gweithgareddau gwyliau amrywiol.

Mae modd i gynhalwyr yn RhCT ddefnyddio cyfleusterau hamdden am bris gostyngol. Cysylltwch â'r gwasanaethau hamdden am ragor o fanylion.

Darpariaeth Arbennig:

Mae plant a phobl ifainc yn gymwys i gael seibiannau byrion os oes gyda nhw anabledd corfforol, anabledd dysgu neu nam ar y synhwyrau sydd yn barhaol a sylweddol, neu salwch sy'n bygwth bywyd. Bydd gweithiwr cymdeithasol yn siarad â chi ynglŷn ag anghenion eich plentyn ac amgylchiadau'ch teulu, a lle bo'n briodol, yn trafod cefnogaeth bosibl ar eich cyfer chi.

Y Ffordd Ymlaen

Rydyn ni wedi ymrwymo i weithio gyda phlant anabl, eu teuluoedd a phartneriaid yn y sector gwirfoddol a'r sector statudol, i sicrhau bod ein gwasanaethau seibiannau byrion yn canolbwyntio ar wella cyfleodd a chanlyniadau mewn bywyd ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd.

Bydd y datganiad yma yn cael ei adolygu'n gyson fel y bo'n briodol.

Os oes cwestiynau neu sylwadau gyda chi, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd drwy e-bost: fis@rctcbc.gov.uk neu drwy ffonio 0800 180 4151 rhadffon, neu Rwydwaith Cynhalwyr a Rhieni RhCT drwy e-bost: rhwydwaithcynhalwyrarhieni@rctcbc.gov.uk

Mae'r datganiad yma ar gael mewn ystod o fformatau ac ieithoedd ar gais.

JB:49677-13 Hydref 2019